Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Gabriel a Sant Raphael
**Stryd y Briallu**
**Tonypandy**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF40 1BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Gabriel a Sant Raphael

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Gabriel a Sant Raphael yn nhref Tonypandy yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.  Mae 159 o ddisgyblion, gan gynnwys 25 o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth meithrin ar sail amser llawn.  Mae gan yr ysgol chwe dosbarth, gan gynnwys tri dosbarth oedran cymysg a dosbarth meithrin.

Cyfartaledd treigl y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 17%.  Mae hyn ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan 29% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.  Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, ac mae 18% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol ym mis Gorffennaf 2012.  Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2011.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd wrth arolygu ysgol ag iddi gymeriad crefyddol.  Yn hytrach, mae gofyniad cyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn mewn Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae athrawon yn darparu gwersi ysgogol a diddorol ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi’n frwdfrydig i ddysgu. Mae gan bron bob un ohonynt agwedd gadarnhaol ac maent yn awyddus i gymryd rhan yn ystod eang y gweithgareddau y mae’r ysgol yn eu darparu. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol i safon uchel ac yn dangos parch a phryder at bobl eraill.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol ac mae gan yr ysgol werthoedd a nodau clir. Mae staff yn gweithio fel tîm effeithiol i gynnal safon dda o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Ceir cyfleoedd pwrpasol i rieni ymweld â’r ysgol a dod yn ymwybodol o ddysgu eu plant.

Mae gan yr ysgol systemau clir i werthuso’i pherfformiad ei hun, gwneud gwelliannau a chodi safonau’n effeithiol. Mae ganddi adnoddau digonol i fodloni ei gofynion, ond mae mewn lleoliad cyfyngedig sydd â mynediad uniongyrchol cyfyngedig at ardaloedd awyr agored. Mae’n defnyddio adnoddau’n ofalus ac yn defnyddio gofod yn fedrus i greu amgylchedd ac ethos llwyddiannus ar gyfer dysgu. Mae llywodraethwyr yn deall a chefnogi’r ysgol yn dda.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llafaredd yn y Gymraeg

A2 Gwella monitro ac olrhain cynnydd disgyblion pan fyddant yn gweithio'n annibynnol yn y cyfnod sylfaen

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymhwyso a datblygu eu medrau rhifedd mewn amrywiaeth o destunau

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymhwyso a datblygu eu medrau trin data wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn mewn Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion, ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau siarad yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn cyfeirio'n fuddiol at ddarluniau ac yn esbonio'n glir sut bydd y penbyliaid yn eu hystafell ddosbarth yn datblygu i fod yn frogaod. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol, ac ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen gyda dealltwriaeth. Maent yn rhoi sylw i atalnodi ac yn amrywio eu tôn a'u cyflymdra yn briodol wrth ddarllen ar goedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ysgrifennu at ddibenion amrywiol yn dda, fel ysgrifennu cerddi gan ddefnyddio geiriau sy'n odli, cofnod dyddiadur, neu ysgrifennu fersiwn arall o'r Tri Mochyn Bach (The Three Little Pigs). Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn llwyddiannus i drefnu eu gwaith yn ddilyniannau o frawddegau. Mae llawer ohonynt yn ffurfio eu llythrennau'n gywir, er nad yw lleiafrif ohonynt yn gwahaniaethu'n ddigon clir rhwng priflythrennau a llythrennau is wrth ysgrifennu.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar fedrau gwrando da ac yn siarad yn hyderus ac yn glir yn y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn siarad yn frwdfrydig am ffigurau y maent wedi eu hastudio o hanes Oes Fictoria, fel Florence Nightingale neu William Morris. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf. Er enghraifft, mewn gwersi ym Mlynyddoedd 5 a 6, maent yn cymryd rhan mewn, ac yn arwain, trafodaethau dosbarth am greaduriaid chwedlonol yn hyderus. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da o ran datblygu a defnyddio eu medrau darllen. Mae llawer ohonynt yn defnyddio thesawrysau ac yn chwilio ar y rhyngrwyd yn effeithiol i ddysgu am eiriau neu destunau newydd ac yn gwneud defnydd addas o lyfrau ffeithiol i ddod o hyd i wybodaeth. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn siarad yn frwdfrydig am eu nofel ddosbarth, sef 'Friend or Foe' gan Michael Morpurgo, ac yn galw eu hoff olygfeydd i gof yn glir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu rhestrau o ffeithiau a chyfarwyddiadau mewn ffyrdd priodol ac yn labelu diagramau yn eu llyfrau'n gywir mewn tasgau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu ysgrifennu darnau estynedig ac yn arbrofi â gwahanol arddulliau ysgrifennu yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau perswadiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i gofnodi eu harbrofion gwyddonol yn dda ac yn gwneud rhagfynegiadau ac yn disgrifio eu dulliau a'u casgliadau. Gallant esbonio beth sydd ei angen i wneud prawf teg, ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn esbonio'r newidynnau gwyddonol yn eu harbrofion yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn llawysgrifen eglur, gysylltiedig.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio patrymau Cymraeg cywir o oedran ifanc iawn i ateb y gofrestr a chyfleu eu dewisiadau amser cinio yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gywir i gwestiynau amdanyn nhw eu hunain. Maent yn cyfrif i ugain, yn adnabod eu lliwiau ac yn galw caneuon cyfarwydd i gof yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ateb cwestiynau sylfaenol am eu hobïau ac yn disgrifio eu teuluoedd gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Mae llawer ohonynt yn darllen ystod addas o destunau gydag ynganiad da a dealltwriaeth gadarn. Gyda chymorth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu at ystod o ddibenion gyda chywirdeb cynyddol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llafaredd disgyblion yn y Gymraeg yn rhy gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu cyfrif yn gywir ac mae llawer ohonynt yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1, yn eu gwersi am dyfu bwyd, yn gwybod sut i ddidoli a chyfrif tatws ac yn mesur moron â phrennau mesur i roi eu hatebion mewn centimetrau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu adio a thynnu, ac maent yn datblygu dealltwriaeth dda o werth lle. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso strategaethau addas, gan ddefnyddio pedair rheol rhif, i ddatrys problemau. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesuriadau ac yn defnyddio gwahanol unedau yn briodol i amseru a phwyso neu gyfrifo elw a cholled yn y gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws amrywiaeth o bynciau a thasgau y maent yn ymgymryd â nhw mor aml neu gystal ag y gallent.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mewn TGCh yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i dynnu lluniau o'u gweithgareddau, a'u cofnodi, a gweld ffeiliau cyfryngau. Defnyddiant apiau darlunio yn llwyddiannus i greu a lliwio lluniau. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn casglu gwybodaeth, fel hoff flodau eu cyfoedion yn y dosbarth, ac yn defnyddio rhaglenni syml creu graffiau i gofnodi eu canfyddiadau. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau i ymchwilio ar y rhyngrwyd, ac yn dethol ac adleoli delweddau a gwybodaeth yn gymwys. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn hyderus i ailddrafftio, dangos a chyflwyno eu gwaith ysgrifenedig. Defnyddiant godau mynediad cyflym i ymgorffori ffeiliau'r cyfryngau yn eu gwaith yn effeithiol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, mae gallu disgyblion i gyflwyno data gan ddefnyddio graffiau neu siartiau mewn gwahanol ffurfiau yn gyfyngedig. Nid yw eu gallu i ddefnyddio taenlenni electronig i ddadansoddi a chyflwyno gwybodaeth wedi'i ddatblygu'n ddigonol chwaith.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd dros ddysgu. Mewn dosbarthiadau, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac maent yn awyddus i wneud yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i gymryd rhan yn yr amrywiaeth lawn o dasgau a ddarperir. Maent yn dechrau gwneud dewisiadau wrth iddynt symud o un gweithgaredd i un arall. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn. Maent yn cydweithio'n dda wrth weithio

mewn parau neu grwpiau. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymagwedd adeiladol, ac maent yn mwynhau gweithio mewn timau.

Mewn gwersi, ac wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae ymddygiad bron pob disgybl yn gyson dda. Mae safle'r ysgol yn ardal gyfyng gyda gofod cyfyngedig yn yr awyr agored. Yn anochel, mae disgyblion o oedrannau cymysg yn aml yn chwarae â'i gilydd yn agos ar yr ierdydd chwarae. Gwnânt hyn yn hapus, ac mae bron pob un ohonynt yn rhannu gofodau yn deg ac yn chwarae pêl-droed yn ddiogel ar adegau penodedig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio offer arall gan roi ystyriaeth ofalus i'w gilydd ac i ddisgyblion iau. Mae 'Arweinwyr Ierdydd Chwarae', sy'n ddisgyblion, wedi dyfeisio gemau pêl y gall disgyblion eu chwarae'n ddiogel mewn grwpiau cylchol yn y gofod sydd ar gael, ac mae llawer o ddisgyblion o oedrannau cymysg yn ymuno yn y rhain yn frwdfrydig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Maent yn mwynhau eu hamseroedd chwarae a'u gweithgareddau ysgol, ac yn edrych ymlaen atynt. Maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar eu pryderon ac yn delio ag unrhyw broblemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae disgyblion o wahanol oedrannau yn siarad yn wybodus am ddewisiadau bwyd synhwyrol, ac mae llawer ohonynt yn dod â ffrwyth i'r ysgol ar gyfer byrbrydau iach. Gall llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 esbonio buddion diet cytbwys yn glir. Cyn yr ysgol, fel rhan o'u gweithgareddau clwb brecwast, mae'r disgyblion iau yn defnyddio neuadd yr ysgol, a disgyblion hŷn yn defnyddio'r mannau yn yr awyr agored ar gyfer gweithgareddau egnïol. Mae pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cwblhau 'milltir bob dydd' yn ystod egwyl y prynhawn. Mae hwn yn weithgaredd strwythuredig sy'n cynnig lefelau cynyddol heriol o gyfranogi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac yn esbonio'n gywir pam mae eu milltir bob dydd o fudd iddynt. Mae llawer ohonynt yn siarad yn frwdfrydig am wahanol chwaraeon y maent yn eu mwynhau yn yr ysgol, y mae pob disgybl yn rhydd i gymryd rhan ynddynt.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae llawer ohonynt yn siarad â diddordeb am ystod y rolau arwain sydd ar gael iddynt, gan gynnwys Criw Cymraeg, arweinwyr digidol, y cyngor chwaraeon a'r cyngor ysgol, a'r pwyllgor eco. Mae pob un o'r grwpiau llais y disgybl hyn yn dod at ei gilydd mewn un senedd i drafod syniadau ei gilydd, a herio penderfyniadau. Maent yn adrodd yn ôl i'w dosbarthiadau yn rheolaidd, ac mae disgyblion yn creu eu papur newydd ysgol eu hunain er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn meddu ar ymwybyddiaeth gref o'r hyn y mae eu cynrychiolwyr yn ei wneud, a sut maent yn cyfrannu at fywyd ysgol. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn gwybod bod y cyngor eco yn gyfrifol am osod tapiau awtomatig yn ardaloedd toiledau'r ysgol i leihau gwastraff dŵr ac arbed arian.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn uniaethu'n gadarnhaol ag arddangosfeydd gweledol a chyd-ddisgyblion sy'n 'swyddogion presenoldeb', sy'n cofnodi presenoldeb pob dosbarth. Mae cyfraddau presenoldeb yn gryf ar y cyfan, ond bu gostyngiad sylweddol ynddynt y llynedd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang yn seiliedig ar destunau sy'n rhoi amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac iach. Caiff disgyblion gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol yn dda yn y dosbarth meithrin lle maent yn gwella eu hyder gan ddefnyddio ystod o deganau mawr ar gyfer yr awyr agored a beiciau. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol iddynt ddewis gweithgareddau thema, fel ardal chwarae rôl caffi, didoli a chyfrif eitemau bwyd neu blannu a thyfu hadau. Mae athrawon yn cynllunio ystod o gyfleoedd wedi'u strwythuro'n ofalus, wedi'u harwain gan oedolion, sy'n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar disgyblion yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r staff cymorth yn gweithio'n dda gydag unigolion a grwpiau o ddysgwyr i sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio mewn meysydd dysgu parhaus ac estynedig. Ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau dysgu annibynnol. Mae athrawon yn defnyddio'r gofod sydd ar gael yn yr awyr agored yn dda er mwyn gwella profiadau dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r drefn o gyflwyno a monitro gweithgareddau amrywiol y mae disgyblion wedi eu dewis eu hunain bob amser mor effeithiol ag y gallent fod. Mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad medrau disgyblion o ran dysgu'n annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cwricwlwm yn datblygu'n dda o un dosbarth i'r llall. Mae athrawon yn cyflwyno themâu a thestunau newydd mewn ffyrdd cyffrous ac ysgogol, ac maent yn trefnu teithiau ac ymweliadau addysgol diddorol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ymweld â'r llyfrgell leol i gymryd rhan mewn digwyddiad Harry Potter i annog darllen er pleser, a'u cyflwyno nhw i awduron newydd. Mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn dechrau dysgu am y cylch dŵr trwy ymweld â Bannau Brycheiniog i astudio afon. Mae athrawon yn sicrhau bod digonedd o dasgau diddorol, ymarferol i ddisgyblion gael profiadau pwrpasol ac uniongyrchol. Maent yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd a chyfathrebu ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhif yn yr amrywiaeth gyfoethog o brosiectau y mae disgyblion yn ymgymryd â nhw. Mae athrawon yn cynllunio a pharatoi ar gyfer dilyniant ym medrau TGCh disgyblion yn effeithiol pan fo'n ymwneud â'u defnydd o eiriau a delweddau. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar ddatblygu defnydd disgyblion o daenlenni a rhaglenni yn seiliedig ar rif i gyflwyno a dadansoddi data.

Fel rhan o brosiect creadigol mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, mae athrawon yn datblygu ystod o ddulliau addysgu'r celfyddydau mynegiannol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gydag arlunydd gweledol a dawnsiwr i archwilio stori 'Whose Afraid of the Bwgan Wood'. O ganlyniad, mae'r gwersi hyn yn gwella ymwybyddiaeth disgyblion o wahanol ddulliau creadigol yn dda.

Mae'r cynllunio i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o draddodiadau a diwylliant Cymru yn effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddathlu bywydau enwogion lleol, fel y dramodydd Frank Vickery, y chwaraewr rygbi Cliff Morgan ac enwogion cyfoes, fel Ioan Gruffudd. Mae athrawon yn trefnu bod disgyblion yn dysgu am dreftadaeth a hanes Cymru trwy ymweliadau cynhyrchiol ag

Amgueddfa Big Pit, Castell Caerdydd a Chaerllion. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg llafar disgyblion yn amrywio gormod rhwng dosbarthiadau.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cyflwyno gwersi ar gyflymdra addas. Mae staff bron bob amser yn esbonio'r amcanion dysgu'n ofalus fel bod disgyblion yn glir ynglŷn â'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i lwyddo. Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion ar eu gwaith ac mae disgyblion yn ymateb ac yn gwella eu gwaith trwy ailedrych ar feysydd a nodwyd. Mae hyn yn hynod effeithiol yng nghyfnod allweddol 2 lle mae athrawon, yn eu hadborth ysgrifenedig ac mewn trafodaethau unigol gyda disgyblion, yn cymhwyso dulliau cyson i helpu disgyblion i ganolbwyntio ar sut gallant wella eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu yn llwyddiannus. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu cymorth gwerthfawr ac effeithiol ar gyfer grwpiau targedig ac unigolion. Mae perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn gefnogol a chynhyrchiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol gyda lefelau cryf o barch, ymddiriedaeth a chydweithrediad rhwng staff, disgyblion a rhieni.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth greadigol a diwylliannol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, fel drama'r Dioddefaint yn yr eglwys leol, ac mae hyn yn hyrwyddo a meithrin medrau cymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn helpu hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg yn frwdfrydig. Mae wedi datblygu ei ardal ei hun yn yr ysgol lle gall disgyblion ddarllen llyfrau am Gymru a dysgu geirfa Gymraeg. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud penderfyniadau pwrpasol am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, maent yn penderfynu ar ffocws eu gwaith gydag arlunwyr gwadd mewn prosiectau dawnsio creadigol a chelf. Mae disgyblion yn cefnogi gweithgareddau allgyrsiol yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys y clwb eco a'r clwb Cymraeg, y clybiau pêl-droed a phêl-rwyd a'r côr.

Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer nodi'n gynnar ddisgyblion sydd angen rhagor o gymorth. Mae staff yn monitro ac asesu disgyblion yn gyflym, ac yn darparu cymorth amserol a phwrpasol trwy raglenni ymyrraeth niferus. Mae arweinwyr yn defnyddio system fanwl ar gyfer olrhain cynnydd a lles yr holl ddisgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwersi perthnasol ar gyfer grwpiau ac unigolion yn unol â'u hanghenion. Mae'r sesiynau targedig hyn yn helpu sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae arweinwyr yn mesur effaith rhaglenni cymorth ac ymyrraeth yn rheolaidd. Maent yn gweithio'n agos gydag ystod eang o arbenigwyr, gan gynnwys seicolegwyr addysg a swyddog cymorth llythrennedd emosiynol, i gynllunio rhaglenni addas, pan fydd angen.

Mae staff y cyfnod sylfaen yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bob disgybl unigol, ac yn monitro ac olrhain eu datblygiad o ran medrau penodol yn dda. Mae athrawon yn

annog pob un o'r disgyblion i ddatblygu meddylfryd cadarnhaol wrth wynebu heriau. Mae ymweliadau gan ddarparwyr arbenigol yn hyrwyddo lles personol disgyblion yn effeithiol trwy ddatblygu eu medrau meddwl a chanolbwyntio unigol, er enghraifft trwy ioga a myfyrdod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac i ddisgyblion ymgymryd â lefelau addas o weithgarwch corfforol. Mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys ar-lein, a sut i ddilyn ffordd iach o fyw. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth bwysig gyda rhieni'n dda, gan gynnwys trwy gylchlythyrau, y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon testun. Mae'r pennaeth a'r staff yn bobl hawdd mynd atynt, ac yn gymwynasgar, ac mae gan yr ysgol ymagwedd drws agored sy'n galluogi staff i ymateb i bryderon rhieni'n gyflym. Mae gan staff berthnasoedd gwaith priodol gyda rhieni ac maent yn cynnig ystod fuddiol o gyfleoedd iddynt gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu gweithdai gwerthfawr sy'n galluogi rhieni i ddeall sut mae medrau darllen disgyblion yn datblygu, beth mae'r ysgol yn ei wneud i gefnogi darllen, a sut gall rhieni helpu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref, gefnogol a phwrpasol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar godi safonau a sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r pennaeth, gyda chymorth medrus gan ei dirprwy, yn gosod disgwyliadau uchel, ac yn cyfleu'r rhain yn llwyddiannus i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, y maent yn eu cyflawni'n ddiwyd ac yn effeithiol.

Ceir trefniadau pwrpasol a thrylwyr i werthuso effeithiolrwydd yr ysgol. Caiff systemau monitro trylwyr, ynghyd â rhaglenni hyfforddiant a chymorth effeithiol, effaith gadarnhaol ar wella darpariaeth yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso sy'n eu helpu i nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data ar berfformiad, craffu ar waith disgyblion a gwrando ar ddysgwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio deilliannau'r broses hunanwerthuso yn effeithiol i osod blaenoriaethau gwella perthnasol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau yn effeithiol. Mae ganddynt hanes da o sicrhau gwelliannau. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd ac mae wedi codi safonau ym medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau i wella darpariaeth i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, a gwella eu medrau Cymraeg, wedi'u cyflawni'n llawn o ran deilliannau gwell gan ddisgyblion.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn adnabod y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda.  Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol o ddydd i ddydd, a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth a theithiau dysgu rheolaidd.  Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau ac maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.  Er enghraifft, maent yn monitro gwariant yn ofalus iawn i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon.  Mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol yn datblygu'n briodol.

Mae systemau rheoli perfformiad yr ysgol yn cefnogi anghenion datblygiad proffesiynol staff yn effeithiol.  Mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd perthnasol o ran hyfforddiant a datblygiad, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu harferion ac ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.  Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar i sicrhau dull cyson o reoli ymddygiad disgyblion yn cyfrannu'n dda at y perthnasoedd parchus sy'n bodoli rhwng pob aelod o gymuned yr ysgol.  Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd pwrpasol i athrawon rannu arfer dda.  Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio gyda staff o ysgolion lleol i gynllunio gweithgareddau gwyddoniaeth a phrosiectau celfyddydau creadigol.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol i gefnogi gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth.  Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o staff cymwys i gyflwyno'r cwricwlwm a sicrhau lles disgyblion.  Mae arweinwyr yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn bwrpasol i ddarparu cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae'r grant datblygu disgyblion yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn bwrpasol trwy ddarparu rhaglenni ymyrraeth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion a nodwyd yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol.  Mae athrawon yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r man cyfyngedig sydd ar gael o fewn adeilad yr ysgol, a'r tu allan.  Maent yn dynodi ac yn trefnu pob ardal yn ofalus ac yn defnyddio gofod yn greadigol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.  Er enghraifft, trwy neilltuo gofod awyr agored yn ddychmygus, mae'r ysgol yn hwyluso cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio helygen i greu ardal ddysgu orchuddiedig gyffrous.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019